Joint Council for Qualifications

**Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA**
**Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt OCR**
**Cymwysterau CCEA TAG UG a Safon Uwch unedol**
**Cymwysterau TLM a Phroject**

# Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs

## 1 Medi 2023 hyd at 31 Awst 2024

**At sylw penaethiaid canolfannau, uwch arweinwyr ac arweinwyr pwnc**

**Cynhyrchwyd ar ran:**

©JCQ[CIC] 2023

Mae’r Cyd-gyngor Cymwysterau wedi ysgrifennu’r cyfarwyddiadau hyn ar gyfer gosod, goruchwylio, dilysu a marcio gwaith cwrs, ei safoni’n fewnol a’i gymedroli’n allanol mewn canolfannau arholiadau.

Mae’r cyfarwyddiadau hyn i’w defnyddio gyda chymwysterau cyffredinol cymhwysol AQA, Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt OCR, cymwysterau TAG UG a Safon Uwch unedol CCEA, TLM a Chymwysterau Project. Gallant hefyd fod yn berthnasol i gymwysterau Lefel 1, Lefel 2 neu Lefel 3 penodol i gyrff dyfarnu eraill. Dylai canolfannau gyfeirio at gyfarwyddiadau cyrff dyfarnu.

Mae’r rhain yn gyfarwyddiadau sy’n ychwanegol at unrhyw ganllawiau neu reoliadau y gallai'r cyrff dyfarnu unigol eu cyhoeddi. Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng canllawiau neu reoliadau'r corff dyfarnu a’r cyfarwyddiadau hyn, canllawiau'r corff dyfarnu a chyfarwyddiadau pwnc-benodol fydd yn cael blaenoriaeth.

Mae’r cyfarwyddiadau hyn yn weithredol o 1 Medi 2023.

Mae’r newidiadau a wnaed i'r llyfryn hwn ers y fersiwn blaenorol (1 Medi 2022 hyd at 31 Awst 2023) wedi'u huwcholeuo mewn melyn i'w gwneud yn haws eu gweld.

Cyfrifoldeb pob arweinydd pwnc yn y ganolfan yw gwneud yn siŵr ei fod yn gyfarwydd â chynnwys y llyfryn hwn.

Dylai canolfannau nodi bod unrhyw gyfeiriad at ‘CGC’ neu ‘Cyd-gyngor Cymwysterau’ yn y ddogfen hon yn golygu CGC CIC neu Cyd-gyngor Cymwysterau$^{CIC}$.

Anogir canolfannau i gyrchu'r fersiwn rhyngweithiol o'r ddogfen hon gan ddefnyddio'r Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP). Mae'r CAP ar gael drwy unrhyw un o wefannau allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

**Cynnwys**


**Rhagarweiniad** ii

**1 Gosod tasgau** 1

**2 Marcio, diwygio, ailddrafftio a chynnal adolygiad interim o'r gwaith** 1

**3 Cyflwyno gwaith cwrs** 3

**4 Rhan rhieni/gofalwyr** 5

**5 Cydnabod ffynonellau** 5

**6 Camymddwyn mewn gwaith cwrs** 5

**7 Gweithdrefnau dilysu** 7

**8 Marcio gwaith cwrs a asesir yn fewnol** 8

**9 Anodi** 9

**10 Gwaith a gynhyrchir ar y cyd** 10

**11 Ansawdd Iaith/Cyfathrebu Ysgrifenedig** 10

**12 Safoni marcio o fewn canolfannau** 10

**13 Cyflwyno marciau cydrannau a asesir yn fewnol** 11

**14 Gwaith cwrs anghyflawn** 12

15 **Gwneud cais am ystyriaeth arbennig mewn perthynas â gwaith cwrs anghyflawn**
**gwaith cwrs** 12

**16 Gwaith cwrs coll** 13

**17 Ailddefnyddio marciau gwaith cwrs gan ymgeiswyr** 13

**18 Cymedroli allanol** 14

**19 Adborth i ganolfannau** 15

**20 Gwaith cwrs a asesir yn allanol** 15

**21 Dychwelyd y gwaith i'r canolfannau** 16

**22 Trefniadau consortiwm canolfannau** 16

**23 Adolygiadau o'r cymedroli** 17

**24 Materion yn ymwneud â mynediad** 18

**Atodiad 1 Datganiad Dilysu'r CGC – asesiadau gwaith cwrs** 19

**Atodiad 2 CGC – Hysbysiad i Ymgeiswyr – asesiadau gwaith cwrs** 21

## Rhagarweiniad

Yn y cyfarwyddiadau hyn, ystyr canolfan yw sefydliad y bydd corff dyfarnu'n ei gymeradwyo fel canolfan i gynnal ei arholiadau. Bydd pennaeth ysgol, pennaeth coleg, neu brif swyddog sefydliad sydd wedi'i gymeradwyo fel canolfan yn cael ei alw'n bennaeth y ganolfan.

Pennaeth y ganolfan sy'n atebol i'r cyrff dyfarnu am wneud yn siŵr bod gwaith cwrs yn cael ei gynnal a'i farcio yn unol â'r cyfarwyddiadau hyn.

Os bydd sefyllfa'n codi nad yw'n cael ei thrafod yn y cyfarwyddiadau hyn, dylech ofyn am gyngor y corff dyfarnu. Lle mae cyfarwyddiadau pwnc-benodol wedi'u hargraffu yn y fanyleb, mae'r rhain yn cymryd blaenoriaeth dros y cyfarwyddiadau yn y ddogfen hon.

Mae'r cyfarwyddiadau hyn i'w dilyn wrth osod, goruchwylio, dilysu a marcio gwaith cwrs, ei safoni'n fewnol a'i gymedroli'n allanol ym mhob pwnc.

Mae'r term gwaith cwrs yn un generig. Mae'n cynnwys y gwaith sy'n ofynnol mewn cymwysterau Project a gwaith a asesir yn fewnol mewn cymwysterau eraill sy'n cael eu trafod yn y *Cyfarwyddiadau* hyn. Dylai canolfannau fod yn ymwybodol bod adrannau 1-7, 10, 11, 15-17 a 24 hefyd yn berthnasol i waith cwrs a asesir yn allanol.

Mae'r term athro yn cynnwys unrhyw un (ni waeth beth fo'i statws cyflogaeth) sy'n gyfrifol am oruchwylio a/neu asesu gwaith ymgeiswyr.

**Rhaid** i ganolfannau anfon yr holl ohebiaeth sy'n ymwneud â gwaith cwrs yn syth at y corff dyfarnu dan sylw ac nid at y cymedrolwr (oni bai bod y corff dyfarnu'n nodi fel arall).

Atgoffir canolfannau y gall **torri'r rheoliadau o gwbl o ran gosod, goruchwylio, dilysu a marcio gwaith cwrs gael ei ystyried yn gamymddwyn (sy'n cynnwys camweinyddu)** yn ôl y diffiniad yn llyfryn y CGC *Amau Camymddwyn*: *Polisïau a Gweithdrefnau*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC ac yn Gymraeg ar wefan CBAC: https://www.cbac.co.uk/media/jnro3rpt/17-jcq-suspected-malpractice-policies-procedures_20-21-w.pdf

Er mwyn cael gwybodaeth ynglŷn â chynnal asesiadau di-arholiad yn y manylebau TAG UG, Safon Uwch a TGAU, **rhaid** i ganolfannau gyfeirio at ddogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal asesiadau di-arholiad:* https://www.cbac.co.uk/media/2xyf2wso/8-instructions-for-conducting-nea-2021-w.pdf

## 1 Gosod tasgau

1.1 Mae cydrannau gwaith cwrs yn asesu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ymgeiswyr nad yw'n hawdd eu hasesu drwy bapurau ysgrifenedig wedi'u hamseru. Bydd sawl ffurf wahanol i waith cwrs felly. Gall tystiolaeth o gyfranogiad y gellir ei hatodi â gwaith terfynol yr ymgeisydd gynnwys allbrintiau, copïau o gyflwyniadau, siartiau, ffotograffau, llythyrau, arteffactau, fideos, recordiadau neu drawsgrifiadau o gyfweliadau, CDau neu DVDau. Bydd yr amrywiaeth hon yn cael ei hadlewyrchu mewn unrhyw ofynion pwnc-benodol o ran gwaith cwrs sydd wedi'u cyhoeddi gan y corff dyfarnu.

1.2 Dylai'r ganolfan sicrhau bod yr ymgeiswyr yn glir am y meini prawf asesu y mae disgwyl iddynt eu bodloni yn eu gwaith cwrs. Bydd manylebau fel arfer yn esbonio'r meini prawf yn fanwl. Fodd bynnag, gallai fod angen rhagor o esboniad neu ddehongliad ar yr ymgeiswyr cyn y byddant yn deall yn llawn natur y sgiliau y mae disgwyl iddynt eu dangos. **Rhaid** i unrhyw esboniad neu ddehongliad a roddir gan staff addysgu fod yn gyffredinol yn hytrach na phenodol i waith yr ymgeisydd.

1.3 Yn achos yr ymgeiswyr hynny sy'n cychwyn ar gymwysterau Project, rhaid nodi'n glir beth sydd wedi'i gynnwys: rhyddid i ddewis testun, dewis hyblyg o allbwn a'r cyfle i ddangos tystiolaeth o amrediad eang o alluoedd. Fodd bynnag, rhaid i'r ymgeiswyr ddewis projectau ar ôl trafod â'r goruchwyliwr. Dylai'r ganolfan eu dilysu i sicrhau eu bod yn briodol, gan ddilyn dulliau gweithredu y bydd y corff dyfarnu'n eu pennu.

## 2 Marcio, diwygio, ailddrafftio a chynnal adolygiad interim o'r gwaith

2.1 Wrth farcio'r gwaith cwrs, **ni ddylai** athrawon roi credyd am unrhyw gymorth ychwanegol fydd wedi'i roi i'r ymgeiswyr sydd y tu hwnt i'r hyn a ddisgrifiwyd yn y fanyleb. **Rhaid** i athrawon roi manylion unrhyw gymorth ychwanegol ar y ffurflen(ni) gofnodi briodol. Ymhlith yr enghreifftiau fyddai:

- ar ôl adolygu gwaith cwrs yr ymgeisydd rhoi cyngor manwl ac awgrymiadau ar sut i wella'r gwaith er mwyn bodloni'r meini prawf asesu (naill ai i ymgeiswyr unigol neu i grwpiau);
- nodi gwallau neu hepgoriadau'n fanwl sy'n golygu nad oes unrhyw gyfle i'r ymgeisydd feddwl drosto'i hun;
- rhoi cyngor ar welliannau penodol y mae eu hangen i fodloni'r meini prawf asesu;
- darparu fframiau ysgrifennu penodol i'r dasg gwaith cwrs (e.e. amlinelliadau, penawdau paragraffau neu benawdau isadrannau);
- ymyrryd yn bersonol i wella cyflwyniad neu gynnwys darn o waith cwrs.

Cyn rhoi cymorth ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a ddisgrifir yn y fanyleb, dylai athrawon sicrhau bod darpariaeth i gofnodi'r cymorth hwn a'i ystyried wrth farcio.

2.2 Mae rhwydd hynt i ymgeiswyr adolygu ac ailddrafftio darn o waith cwrs heb ymgynghori â'r athro cyn cyflwyno'r darn terfynol. Dylid cynghori ymgeiswyr i dreulio cyfnod priodol o amser ar y gwaith sy'n gymesurol â'r marciau sydd ar gael.

2.3 Lle mae drafftio'n rhan gynhenid o'r sgiliau sy'n cael eu profi, bydd cyfarwyddyd pwnc-benodol ac enghreifftiau yn dangos ei swyddogaeth o ran y math o ysgrifennu sy'n cael ei wneud ac unrhyw asesiad interim a gaiff ei ganiatáu yn yr amgylchiadau hyn. Gall yr arweiniad hwn gynnwys sut mae tystiolaeth o ailddrafftio yn cael ei dangos at ddibenion gwaith safoni mewnol dilynol neu waith cymedroli allanol.

2.4 Yn absenoldeb arweiniad pwnc-benodol, gall athrawon adolygu gwaith cwrs cyn iddo gael ei gyflwyno i'w asesu'n derfynol. Ar yr amod bod unrhyw gyngor yn parhau i fod ar lefel gyffredinol, gan ganiatáu i'r ymgeisydd gymryd y cam cyntaf o ran gwneud newidiadau, nid oes angen cofnodi'r cyngor hwnnw na thynnu marciau. Yn gyffredinol, byddai disgwyl i un adolygiad fod yn ddigonol i alluogi'r ymgeiswyr i ddeall gofynion y meini prawf asesu. Gellir rhoi cyngor naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

2.5 **Rhaid** gwahaniaethu'n glir rhwng unrhyw adolygiad interim o'r gwaith cwrs ac asesiad terfynol y gyfres arholiadau arfaethedig. **Unwaith y caiff gwaith ei gyflwyno i'w asesu'n derfynol, ni ellir ei ddiwygio**. **Byddai ychwanegu unrhyw ddeunydd at waith cwrs neu ei ddileu ohono ar ôl iddo gael ei gyflwyno gan ymgeisydd i'w asesu'n derfynol yn achos o gamymddwyn**.

2.6 Wrth gyflwyno gwaith cwrs mewn fformat digidol, mae'n bosibl na fydd unrhyw farciau ar gael am lunio e-waith cwrs. Yn yr achos hwn, gall yr athro lunio'r gwaith yn lle'r ymgeisydd.

2.7 Os bydd angen cymorth ychwanegol ar ymgeisydd er mwyn dangos agweddau ar yr asesiad, **rhaid** i'r athro ddyfarnu marc sy'n cynrychioli cyflawniad digymorth yr ymgeisydd. **Rhaid** llofnodi'r datganiad dilysu a rhoi'r wybodaeth ar y daflen gofnodi.

2.8 Os yw ymgeiswyr yn dilyn cymwysterau Project, bydd angen i'r goruchwyliwr drafod â'r ymgeisydd yr amrediad o dystiolaeth sy'n dderbyniol i'w ddefnyddio. Gall y goruchwyliwr roi adborth ar gynnydd y Project, a dylid cydnabod hynny ar y ffurflen gofnodi briodol.

2.9 **Rhaid** i athrawon gadw gwaith cwrs byw yn ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser pan fydd yn eu meddiant. **Bydd staff addysgu yn rhannu gwaith cwrs 'byw' gydag ymgeiswyr eraill yn cael ei ystyried yn camymddwyn.**

## 3 Cyflwyno gwaith cwrs

3.1 **Rhaid** i’r holl waith cwrs a gyflwynir i’w asesu fod yn waith yr ymgeisydd ei hun. Gall deunydd ysgrifenedig fod wedi'i ysgrifennu gan ddefnyddio inc du neu wedi'i gynhyrchu ar brosesydd geiriau, lle'n bosibl.

3.2 Lle bo’n briodol, gall y gwaith a gyflwynir hefyd gynnwys allbrintiau/copïau o gyflwyniadau, siartiau, arteffactau, ffotograffau, llythyrau, fideos, recordiadau neu drawsgrifiadau o gyfweliadau, yn ogystal â datganiadau tyst gan athrawon sy'n goruchwylio i gofnodi'r hyn a ddangoswyd gan yr ymgeisydd. Os bydd fideos neu ffotograffau/delweddau o'r ymgeiswyr yn cael eu cynnwys fel tystiolaeth o gyfranogiad neu gyfraniad unigol, rhaid i benaethiaid canolfannau, ar ddechrau'r cwrs, gael cydsyniad ysgrifenedig unrhyw ymgeisydd (a chydsyniad rhiant/gofalwr yr ymgeisydd hwnnw lle bo angen hynny) sy'n ymddangos ynddynt.

3.3 **Rhaid** i waith cwrs gynnwys teitl a, lle bo hynny’n berthnasol, tabl o’r cynnwys a llyfryddiaeth. Dim ond os yw deunydd a gynhwysir fel atodiadau (fel tablau ystadegau, diagramau, graffiau, darluniadau, ffotograffau, mapiau ac ati) yn berthnasol i’r gwaith a bod cyfeiriad ato yn y testun y rhoddir marciau amdanynt.

3.4 Fel arfer ni ddylid cynnwys deunyddiau enghreifftiol gwerthfawr gyda’r gwaith sy'n cael ei anfon i’w gymedroli neu ei farcio’n allanol. Dylid cysylltu nodyn â’r gwaith cwrs yn cadarnhau bod y deunydd yn rhan o’r cyflwyniad gwreiddiol. Gellir cynnwys ffotograffau o’r deunydd os yw’n briodol gwneud hynny.

Os anfonwyd deunyddiau enghreifftiol gwerthfawr neu fregus i’w cymedroli neu i’w marcio’n allanol, mae’r cyrff dyfarnu’n argymell bod canolfannau’n yswirio deunydd o’r fath yn erbyn difrod neu golled o’r adeg y bydd yn cael ei anfon tan y bydd yn cael ei ddychwelyd i’r ganolfan.

**Nid yw’r cyrff dyfarnu’n derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod sy’n digwydd i waith cwrs yn ystod y broses gymedroli nac wrth ei ddanfon, ei gludo na’i storio, nac am broblemau sy’n digwydd wrth lunio, cyflwyno a chymedroli gwaith cwrs ar ffurf electronig.**

**DS** Dylid cynghori ymgeiswyr i **beidio** â chynnwys unrhyw eitemau gwerthfawr neu bersonol e.e. ffotograffau, tystysgrifau.

3.5 Lle bo ymgeiswyr yn cynhyrchu gwaith cwrs yn electronig, **rhaid** iddynt wneud copi wrth gefn o’u gwaith yn rheolaidd a’i gadw’n ddiogel ar system TG y ganolfan. **Rhaid** i'r ganolfan roi trefniadau diogelwch gwybodaeth briodol ar waith (bydd hyn yn cynnwys amddiffyn yn erbyn llygredd a seiberymosodiad)

3.6 Dylai canolfannau gymryd camau i sicrhau bod y pecyn y mae'r gwaith yn cael ei anfon ynddo yn gadarn ac wedi'i glymu'n ddiogel. Dylai canolfannau hefyd ystyried amgryptio unrhyw gyfryngau digidol sensitif er mwyn sicrhau diogelwch y data sy'n cael eu storio arno. **Rhaid** i ganolfannau gyfeirio at ganllawiau cyrff dyfarnu i sicrhau bod y dull amgryptio yn addas.

3.7 At ddibenion cymedroli neu farcio allanol, dylid cyflwyno gwaith teipiedig neu ysgrifenedig ar bapur maint priodol mewn clawr neu ffolder blaen, **ynghyd â’r** taflenni clawr y bydd y corff dyfarnu'n eu darparu. Rhaid nodi’r canlynol yn glir ar y clawr: enw a rhif yr ymgeisydd, rhif y ganolfan, teitl neu god y fanyleb a theitl neu god y gydran/uned. **Ni ddylid** cynnwys cloriau neu ffolderi swmpus. Os yw'r gwaith cwrs yn ddogfennau wedi'u gairbrosesu, **rhaid** i'r ymgeisydd sicrhau bod rhif y ganolfan, rhif yr ymgeisydd a chod yr uned/cydran yn ymddangos ar bob tudalen fel pennyn/troedyn.

3.8 O ran Cymwysterau Project, **rhaid** cysylltu'r adroddiad ysgrifenedig a'r holl dystiolaeth y bydd y corff dyfarnu'n ei bennu yn ddiogel â ffurflen gofnod yr ymgeisydd fel y gall y cymedrolwr ddarllen y gwaith a'r marciau cysylltiedig yn hawdd.

## 4 Rhan rhieni/gofalwyr

4.1 Dylai rhieni/gofalwyr annog eu plant i dreulio amser ar eu gwaith cwrs ac i feddwl amdano mor gynnar â phosibl. Dylent drafod y broses o gynllunio ac amseru'r gwaith â'u plant.

4.2 Gall rhieni/gofalwyr sicrhau bod adnoddau ar gael i'w plant a thrafod y gwaith cwrs â nhw. Fodd bynnag, **nid** ydyn nhw'n cael rhoi cyngor uniongyrchol i chi am yr hyn y dylid, neu na ddylid, ei gynnwys.

4.3 Dylid annog plentyn y mae angen cymorth mwy penodol arno i siarad â'i h/athro.

## 5 Cydnabod ffynonellau

5.1 Mewn llawer o bynciau bydd ymgeiswyr yn defnyddio deunydd ffynhonnell, gan gynnwys y rhyngrwyd a deallusrwydd artiffisial, wrth gyflawni eu gwaith cwrs. Fodd bynnag, **ni ddylai** ymgeiswyr gopïo deunydd o'r fath a'i hawlio fel eu gwaith eu hunain.

5.2 Os yw ymgeiswyr yn defnyddio deunydd o ffynhonnell neu ddeunydd wedi'i gynhyrchu o ffynhonnell lle nad eu gwaith nhw ydyw / o ffynhonnell nad yw'n waith iddyn nhw eu hunain, **rhaid** iddynt nodi'r rhan/elfen/ymadrodd penodol ac o ble y daeth. **Rhaid** i ymgeiswyr roi cyfeiriadau manwl hyd yn oed os byddant yn aralleirio'r deunydd gwreiddiol.

Dylai cyfeiriad o lyfr neu gyfnodolyn cyhoeddedig ddangos enw'r awdur, y flwyddyn gyhoeddi a rhif y dudalen. Er enghraifft: (Morrison, 2000, tud 29).

Os daw deunydd o'r rhyngrwyd, dylai'r cyfeiriad ddangos y dyddiad y cafodd y deunydd ei lwytho i lawr a **rhaid** dangos yr union dudalen we, nid y peiriant chwilio a ddefnyddiwyd i ddod o hyd iddo. Gellir copïo hwn o'r llinell cyfeiriad. Er enghraifft: http://news.bbc.co.uk/onthisday/hi/dates/stories/october/28/newsid_2621000/2621915.stm llwythwyd i lawr 5 Chwefror 2024.

Lle defnyddiwyd cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur (megis Bot Sgwrsio DA), **rhaid** i'r cyfeirnod ddangos enw'r bot DA a ddefnyddiwyd a hefyd dyddiad cynhyrchu'r cynnwys. Er enghraifft: ChatGPT 3.5 (https://openai.com/blog/chatgpt/), 25/01/2024. Dylai ymgeiswyr gadw copi o'r cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur at ddibenion cyfeirio a dilysu.

5.3 Gall fod angen i ymgeiswyr lunio llyfryddiaeth sy'n rhestru manylion llawn y cyhoeddiadau a ddefnyddiwyd i ymchwilio a chefnogi eu gwaith cwrs, hyd yn oed os na chyfeirir yn uniongyrchol at y rhain, er enghraifft: Curran, J. *Mass Media and Society* (Hodder Arnold, 2005).

## 6 Camymddwyn mewn gwaith cwrs

6.1 **Ni ddylai** ymgeiswyr wneud y canlynol:

- cyflwyno gwaith lle nad eu gwaith nhw ydyw;
- darparu eu gwaith ar gyfer ymgeiswyr eraill drwy unrhyw fodd;
- caniatáu i ymgeiswyr eraill ddefnyddio'r ffynonellau maent wedi dod o hyd iddynt yn annibynnol;
- cynorthwyo ymgeiswyr eraill i gynhyrchu gwaith;
- defnyddio DA, llyfrau, y rhyngrwyd neu ffynonellau eraill heb gydnabyddiaeth neu briodoledd;
- camddefnyddio DA;
- cyflwyno gwaith y mae rhywun arall wedi prosesu'r geiriau, heb gydnabyddiaeth;
- Cynnwys deunydd amhriodol, anweddus neu sarhaus.

Mae'r gwaharddiadau hyn yn golygu **na ddylai** ymgeiswyr gyhoeddi eu gwaith drwy ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol neu drwy unrhyw fodd electronig arall. **Rhaid** iddynt fod yn ymwybodol o ddogfen y CGC, *Gwybodaeth i ymgeiswyr – Cyfryngau Cymdeithasol*: https://www.cbac.co.uk/media/c1pdefi1/information-for-candidates-social-media-welsh.pdf

Ni waherddir ymgeiswyr rhag benthyg llyfrau neu adnoddau eraill i'r naill a'r llall cyhyd â nad yw'r rhain yn cael eu defnyddio fel rhan o'r deunydd maent wedi'i ganfod yn annibynnol.

6.2 Os bydd afreoleidd-dra mewn gwaith cwrs yn cael ei ganfod **cyn** i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu i'r corff dyfarnu, dylid defnyddio gweithdrefnau mewnol y ganolfan i ymdrin â'r mater ac nid oes angen cyflwyno adroddiad i'r corff dyfarnu. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo deunydd asesu cyfrinachol y corff dyfarnu wedi'i ddatgelu.
Mewn achos o'r fath, **rhaid** rhoi gwybod i'r corff dyfarnu am hyn.

**Rhaid** cofnodi manylion unrhyw waith nad yw'n waith yr ymgeisydd ei hun ar y ffurflen dilysu a gyflenwir gan y corff dyfarnu neu mewn man priodol arall.

6.3 Os bydd canolfan yn canfod afreolaidd-dra mewn gwaith cwrs **ar ôl** i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu, **rhaid** i bennaeth y ganolfan gyflwyno manylion llawn yr achos i'r corff dyfarnu perthnasol ar y cyfle cyntaf. Darperir canllawiau yng nghyhoeddiad y CGC *Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau*. Mae'r ddogfen a Ffurflen JCQ/M1 i'w cael ar wefan y CGC ac yn Gymraeg ar wefan CBAC:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice

6.4 **Rhaid** i ganolfannau gael trefn apelio fewnol wedi'i chyhoeddi, yn ymwneud â phenderfyniadau asesiadau mewnol, y mae'r ymgeiswyr yn ymwybodol ohoni ac sydd ar gael iddynt. **Rhaid** i'r drefn hon ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau i wrthod gwaith cwrs ymgeisydd ar sail camymddwyn.

Gall canolfan roi ei gweithdrefn apelio fewnol ar wefan yr ysgol/coleg neu fel arall gellid rhoi'r ddogfen i ymgeiswyr os byddant yn gofyn amdani.

6.5 Yn achos adroddiadau o gamymddwyn a amheuir mewn gwaith cwrs sy'n cael ei dderbyn gan arholwr neu gymedrolwr, bydd y corff dyfarnu, lle bo angen, yn gofyn i bennaeth y ganolfan gynnal ymchwiliad llawn i'r camymddwyn honedig ac i adrodd ei gasgliadau yn ôl i'r corff dyfarnu. Mae arweiniad ar hyn yn cael ei roi yn nogfen y CGC y cyfeirir ati ym mharagraff 6.3.

6.6 Mae’r cyrff dyfarnu yn cadw’r hawl i gyflwyno gwaith ymgeiswyr i ddarparwyr gwasanaeth TG trydydd parti er mwyn canfod achosion o gamymddwyn posibl ac amheuir. Os bydd hyn yn digwydd, bydd hunaniaeth yr ymgeisydd yn cael ei warchod.

6.7 **Rhaid** i benaethiaid canolfannau ac uwch arweinwyr priodol sicrhau bod yr aelodau o staff sy'n ymwneud â goruchwylio'r ymgeiswyr sy'n cynhyrchu gwaith cwrs yn uniongyrchol yn ymwybodol o'r potensial am gamymddwyn.

**Rhaid atgoffa staff addysgu bod methu â rhoi gwybod am gyhuddiadau o gamymddwyn neu amheuon o gamymddwyn yn cael ei ystyried yn gamymddwyn ynddo'i hun.**

**Rhaid** i staff addysgu:

- fod yn wyliadwrus o ran camymddwyn ymgeiswyr a bod yn hollol ymwybodol o'r rheoliadau swyddogol;
- uwchgyfeirio ac adrodd unrhyw amheuaeth, gyhuddiad neu ddigwyddiad o gamymddwyn i bennaeth y ganolfan neu’n uniongyrchol i’r corff dyfarnu, gan ddilyn gweithdrefnau chwythu'r chwiban y ganolfan lle bo'n berthnasol.

## 7 Gweithdrefnau dilysu

7.1 **Rhaid** i bob ymgeisydd lofnodi datganiad dilysu (gweler Atodiad 1) wrth roi gwaith cwrs i'r athro i'w asesu'n derfynol. Mae'n dderbyniol llofnodi'r dogfennau'n electronig. (Caiff ymgeisydd ei ddiffinio fel unigolyn y cyflwynwyd cofrestriad ar ei ran ar gyfer uned neu gymhwyster.) Mae hyn er mwyn cadarnhau mai ei waith ei hun ydyw a bod unrhyw gymorth a gafwyd a/neu ffynonellau a ddefnyddiwyd wedi'u cydnabod. **Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod ymgeiswyr yn gwneud hyn**. **Rhaid** i ganolfannau gofnodi marciau **'0'** (sero) os na all ymgeiswyr gadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd i'w asesu.

7.2 **Rhaid** i athrawon gadarnhau bod yr holl waith a gwblhawyd i'w asesu wedi'i gwblhau o dan yr amodau gofynnol a'u bod yn fodlon mai gwaith yr ymgeisydd unigol yn unig yw'r gwaith. Os na allant wneud hynny, **ni ddylid** derbyn y gwaith i'w asesu.

**Rhaid** i bob athro lofnodi'r datganiad dilysu ar ôl cwblhau'r gwaith. Mae'n dderbyniol llofnodi'r dogfennau'n electronig. Gall methu â llofnodi’r datganiad dilysu ohirio prosesu canlyniadau’r ymgeisydd.

**Os gwelir nad yw'r gwaith wedi'i ddilysu'n gywir yn ystod y broses gymedroli allanol, yna bydd y corff dyfarnu'n gosod y marc(iau) a ddyfarnwyd gan y ganolfan yn '0' (sero).**

7.3 Dylai’r athro fod yn ddigon ymwybodol o safon yr ymgeisydd a lefel ei waith i nodi a yw’r gwaith cwrs sy'n cael ei gyflwyno y tu hwnt i allu’r ymgeisydd.

7.4 Yn y rhan fwyaf o’r canolfannau mae’r athrawon yn gyfarwydd â gwaith ymgeiswyr drwy waith dosbarth a gwaith cartref. Lle nad yw hyn yn wir, dylai athrawon ofyn bod gwaith cwrs yn cael ei gwblhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

7.5 Ym mhob achos, mae angen rhywfaint o oruchwyliaeth uniongyrchol i sicrhau bod modd dilysu’n hyderus mai gwaith yr ymgeisydd yw’r gwaith cwrs a gyflwynir.

7.6 Os oes gan athrawon amheuon ynglŷn â llofnodi datganiadau dilysu, dylid dilyn y cyfarwyddyd canlynol:

- os credir bod ymgeisydd wedi derbyn cymorth ychwanegol a bod hyn yn dderbyniol o fewn canllawiau'r fanyleb berthnasol, dylai'r athro roi marc sy'n cynrychioli cyflawniad digymorth yr ymgeisydd.
  **Rhaid** llofnodi'r datganiad dilysu a rhoi'r wybodaeth ar y ffurflen berthnasol;
- os nad yw'n bosibl i'r athro lofnodi datganiad dilysu ymgeisydd penodol, yna ni ellir derbyn gwaith yr ymgeisydd i'w asesu. **Rhaid** cyflwyno marc o **'0'** (sero);
- os oes amheuaeth bod camymddwyn, rhaid ymgynghori ag aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth ynglŷn â'r drefn i'w dilyn. (gweler paragraffau 6.2 a 6.3).

## 8 Marcio gwaith cwrs a asesir yn fewnol

8.1 Wrth farcio gwaith cwrs, **rhaid** i athrawon dalu sylw agos at ofynion y fanyleb. Dylai athrawon nodi mai eu cyfrifoldeb nhw yw dyfarnu marciau am waith cwrs gan ddilyn y meini prawf marcio a nodir ym manyleb y corff dyfarnu a dogfennau cysylltiol pwnc-benodol. **Rhaid** i athrawon ddangos yn glir sut y dyfarnwyd y marciau mewn perthynas â'r meini prawf marcio hyn. **Rhaid** i farciau'r ganolfan adlewyrchu cyflawniad cymharol yr ymgeiswyr i gyd.

8.2 **Rhaid** i ganolfannau wneud pob ymdrech i osgoi sefyllfaoedd lle mae ymgeisydd yn cael ei asesu gan rywun sydd â pherthynas bersonol agos, er enghraifft, aelodau o'i deulu (sy'n cynnwys llysdeulu, teulu maeth a pherthnasoedd agos tebyg) neu ffrindiau agos a'u teulu agosaf (e.e. mab/merch).

Lle na ellir osgoi hyn, **rhaid** i'r ganolfan ddatgan gwrthdaro buddiannau posibl a chyflwyno'r gwaith sydd wedi'i farcio i'w gymedroli p'un ag yw'n rhan o'r sampl cymedroli ai peidio. Rhoddir manylion pellach yn adran 5 y ddogfen CGC *Rheoliadau Cyffredinol ar gyferCanolfannau Cymeradwy*. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar fformat rhyngweithiol o fewn y Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP). Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu. Mae'r ddogfen hefyd ar gael ar fformat PDF ar wefan y CGC ac yn Gymraeg ar wefan CBAC:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/general-regulations

8.3 **Rhaid** i athrawon roi'r dyddiad ar waith yr ymgeiswyr i gyfleu'r amser y marciwyd y gwaith.

## 9 Anodi

9.1 **Rhaid** anodi gwaith cwrs wrth ei farcio er mwyn dangos yn glir sut y dyfarnwyd y marciau.

9.2 Yn ddibynnol ar unrhyw arweiniad pellach fydd wedi'i gynnwys ym manylebau cyrff dyfarnu, dylid dilyn un o'r dulliau canlynol:

- sylwadau crynodol naill ai ar y gwaith (ar y diwedd fel arfer) neu ar daflen glawr;
- darnau allweddol o dystiolaeth yn cael eu nodi drwy'r gwaith gan anodi naill ai ar yr ymyl neu yn y testun;
- cyfuniad o'r uchod.

9.3 Dylai'r nodiadau ynglŷn â sut y dyfarnwyd marciau fod yn:

- glir ac yn ddiamwys;
- priodol i natur a ffurf y gwaith cwrs;
- hwyluso safoni'r marcio o fewn y ganolfan;
- galluogi'r cymedrolwr i wirio'n rhwydd gymhwysiad y meini prawf asesu i'r marcio.

9.4 Lle bo'n briodol i'r math o waith, dylai'r dystiolaeth i gefnogi'r marciau a ddyfarnwyd ddangos:

- ble mae’r meini prawf asesu wedi’u cwrdd, e.e. drwy ysgrifennu ymadroddion allweddol o’r meini prawf (megis 'ymwybyddiaeth o werthoedd', 'yn dethol gwybodaeth', 'yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau') wrth y pwynt addas yn y gwaith;
- unrhyw weithredoedd cynllunio a phrosesu nad ymgymerwyd â nhw'n unigol a darparu manylion unrhyw gymorth neu awgrymiadau a roddir i'r ymgeisydd.

9.5 Os na all y cymedrolwr ddod o hyd i dystiolaeth i gyfiawnhau’r marc a roddir i ymgeisydd, efallai y bydd y gwaith yn cael ei ddychwelyd i’r ganolfan i gael esboniad pellach neu gallai’r marc gael ei newid.

## 10 Gwaith a gynhyrchir ar y cyd

10.1 Gall ymgeiswyr gydweithio wrth wneud ymchwil, oni bai bod y fanyleb yn nodi fel arall. Fodd bynnag, **rhaid** i ymgeiswyr ddarparu ymateb unigol fel rhan o ddeilliant unrhyw dasg;

Lle gellir cyflawni aseiniad fel rhan o grŵp, **rhaid** i bob ymgeisydd ysgrifennu ei gyfrif ei hun o'r aseiniad. Hyd yn oed os yw'r data sydd gan yr ymgeisydd yr un peth, **rhaid** i'r disgrifiad o sut cafwyd y data a'r casgliadau a dynnwyd ohonynt fod yng ngeiriau'r ymgeisydd ei hun. Lle mae'n ofynnol i ymgeiswyr lunio cynnyrch, gallent weithio ar y cyd i lunio'r cynnyrch, ond **rhaid** iddynt ymateb yn unigol a **rhaid** nodi'u cyfraniadau unigol yn glir.

**Rhaid** bod modd pennu'r cyfraniad a wnaed gan ymgeiswyr unigol.

## 11 Ansawdd iaith/cyfathrebu ysgrifenedig

11.1 Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r angen i ddefnyddio cyfathrebu clir a chyflwyniad clir yn eu gwaith cwrs. Bydd manylebau'n nodi a fydd ansawdd yr iaith yn cael ei asesu.

## 12 Safoni marcio o fewn canolfannau

12.1 Dylai canolfannau ddefnyddio deunyddiau cyfeirio ac archif gan gynnwys y deunydd enghreifftiol a ddarperir gan y corff dyfarnu neu waith yn y ganolfan o'r flwyddyn flaenorol, lle bo hwnnw ar gael er mwyn helpu i osod safon y marcio o fewn y ganolfan.

12.2 Cyn marcio, mae'n ddefnyddiol ymgymryd ag ymarferiad marcio rhagarweiniol. Dylai athrawon farcio'r un sampl cymharol fach o waith er mwyn caniatáu i'r safonau marcio gael eu cymharu. Gellir cynnal yr ymarferiad ar adegau priodol yn ystod y cwrs ac mae iddo dair effaith fanteisiol: mae'n helpu i feithrin gwell cymaroldeb yn y safonau marcio; gall nodi'n gynnar yn y broses unrhyw athrawon nad yw eu safonau'n cyd-fynd â rhai eu cydweithwyr; a gall lliniaru rhywfaint ar y llwyth marcio trwm ar ddiwedd y cwrs.

12.3 Lle mae mwy nag un athro mewn canolfan wedi marcio'r gwaith mewn cydran/uned, **rhaid** safoni'r marcio yn fewnol. Dylid defnyddio un o'r gweithdrefnau canlynol fel arfer:

**Naill ai** bydd yr athro sydd â gofal am y safoni mewnol yn ail-farcio sampl o waith sydd wedi'i farcio gan bob athro;

**neu,** bydd yr holl athrawon sy'n gyfrifol am farcio cydran/uned yn cyfnewid gwaith wedi'i farcio (mewn cyfarfod dan arweiniad yr athro/athrawes sydd â gofal am y safoni mewnol fyddai orau) ac yn cymharu eu safonau marcio.

Lle y canfyddir bod safonau'n anghyson, dylai'r athrawon hynny sy'n anghyson addasu eu marciau neu ailystyried marciau'r holl ymgeiswyr yr oeddent yn gyfrifol amdanynt. Dylai'r athro sydd â gofal am y safoni mewnol wirio'r marciau newydd.

12.4 **Ar ôl cwblhau'r marcio a'r safoni mewnol, rhaid i'r ganolfan gadw'r gwaith cwrs ac ni ddylid ei ddychwelyd i'r ymgeiswyr tan ar ôl dyddiad cau yr adolygiadau o'r cymedroli ar gyfer y gyfres dan sylw neu tan y bydd unrhyw apêl, achos o gamymddwyn neu ymholiad am ganlyniad arall wedi'i gwblhau, pa bynnag un sydd hwyraf.**

12.5 Rhaid i ganolfannau gadw tystiolaeth eu bod wedi safoni'r gwaith yn fewnol.

## 13 Cyflwyno marciau cydrannau a asesir yn fewnol

13.1 Bydd cyrff dyfarnu'n cyhoeddi dyddiadau cau cyflwyno'r marciau.

13.2 **Rhaid** cwblhau unrhyw ddogfennaeth sy'n cael ei darparu gan gyrff dyfarnu yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddir, a'i dychwelyd erbyn y dyddiad a nodir. Dylai canolfannau gyflwyno'u marciau gwaith cwrs yn electronig, oni bai bod cyfarwyddyd i wneud yn wahanol.

**Cyfrifoldeb canolfannau yw gwirio'n ofalus y marciau maen nhw'n eu cyflwyno i gorff dyfarnu er mwyn sicrhau cyn lleied o wallau â phosibl.**

**Rhaid** i'r ganolfan wirio marciau'r ymgeiswyr i gyd, nid y sampl a gyflwynwyd yn unig, a gwneud yn siŵr nad oes gwallau adio na thrawsgrifio wedi digwydd cyn eu cyflwyno.

13.3 Lle mae amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth yn effeithio ar ganolfan, gallai fod yn bosibl cael estyniad byr **mewn achosion eithriadol**. Penderfyniad y corff dyfarnu fydd hynny. Mae'n **rhaid** i'r ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu cyn gynted â phosibl i wneud cais am estyniad.

Mae'n bwysig bod canolfannau'n ymwybodol y bydd y drefn o gyhoeddi'r canlyniadau arholiadau ar amser yn cael ei pheryglu os na chedwir at y dyddiadau cyflwyno marciau a samplau.

Ni fydd cyrff dyfarnu yn derbyn marciau gwaith cwrs hwyr lle mae pryderon ynglŷn â dilysrwydd y marciau.

13.4 Pan fydd canolfannau'n cyflwyno eu marciau gwaith cwrs yn electronig, efallai y bydd y corff dyfarnu'n gofyn bod copi o'r marciau yn cael ei gyflwyno i'r cymedrolwr hefyd, ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth arall.

13.5 **Rhaid** i'r ganolfan hysbysu ymgeiswyr am eu marciau sydd wedi'u hasesu gan y ganolfan gan fod ymgeisydd â'r hawl i ofyn am adolygiad o farcio'r ganolfan **cyn y cyflwynir marciau i'r corff dyfarnu.**

**Rhaid cynnal unrhyw adolygiad cyn y cyflwynir marciau i'r corff dyfarnu**. **Rhaid** dynodi digon o amser i ymgeiswyr fel y gallant adolygu copïau o ddeunydd, fel sy'n briodol, a chyrraedd penderfyniad. Rhaid i'r ganolfan hefyd ganiatáu digon o amser i gynnal adolygiad o'r marcio, er mwyn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r marcio ac i roi gwybod i'r ymgeisydd o'r canlyniad cyn terfyn amser y corff dyfarnu. Rhaid i'r adolygiad o'r marcio cael ei gynnal gan aseswr sydd â chymhwysedd priodol, nad yw wedi ymwneud ag asesu'r ymgeisydd hwnnw yn y gorffennol ac nad oes ganddo unrhyw ddiddordeb personol yn yr adolygiad. **Rhaid** i'r adolygwr sicrhau bod marc yr ymgeisydd yn gyson â'r safon a osodir gan y ganolfan.

**Rhaid** i ganolfannau hefyd esbonio'n glir i ymgeiswyr y gallai'r marciau a asesir gan y ganolfan newid yn ystod y broses gymedroli.

**Rhaid** i ganolfannau roi gwybod i'r corff dyfarnu os nad ydyn nhw'n derbyn canlyniad adolygiad.

Lluniodd y cyrff dyfarnu gyfres o Gwestiynau Cyffredinol sydd i'w gweld yn y ddogfen *Hysbysiad i Ganolfannau Hysbysu ymgeiswyr o'u marciau a aseswyd gan y ganolfan*:
https://www.jcq.org.uk/exams-office/non-examination-assessments
Er bod y Cwestiynau Cyffredin yn berthnasol i asesiadau di-arholiad, maent yr un mor berthnasol i'r cymwysterau yr ymdrinnir â nhw yn y ddogfen hon.

## 14 Gwaith cwrs anghyflawn

14.1 Mewn achosion lle mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu sawl darn o waith gwahanol, sy'n cael eu hasesu ar wahân, dylai ymgeisydd sydd wedi methu cwblhau holl rannau’r gwaith gael marciau am y dasg a gyflawnwyd oni nodir yn wahanol yn y fanyleb. Mewn rhai pynciau, gall y tasgau fod yn gyd-ddibynnol a dylai’r athrawon ddilyn y cyfarwyddiadau yn y fanyleb wrth asesu gwaith anghyflawn.

14.2 Os yw ymgeisydd wedi methu cyflwyno unrhyw waith cwrs, **rhaid** cofnodi bod yr ymgeisydd yn absennol, nid dyfarnu marc o **'0'** (sero), pan gyflwynir marciau.

Bydd ymgeisydd sy'n methu cyflwyno gwaith cwrs yn derbyn gradd pwnc rhannol absennol mewn cymhwyster aml-gydrannol a gradd absennol mewn cymhwyster cydran sengl e.e. cymhwyster Project.

14.3 Mewn achosion lle mae ymgeisydd wedi cyflwyno gwaith sy'n cael ei ystyried yn ddi-werth neu lle nad oes modd cadarnhau dilysrwydd y gwaith, **rhaid** rhoi marc o **‘0’** (sero).

## 15 Gwneud cais am ystyriaeth arbennig mewn perthynas â gwaith cwrs anghyflawn

15.1 Os yw ymgeisydd wedi dioddef salwch neu wedi'i anafu dros dro, neu os oes rhyw ddigwyddiad arall y tu allan i'w reolaeth, sydd wedi cael, neu sy'n debygol o fod wedi cael effaith sylweddol ar ei allu i wneud asesiad neu i ddangos ei lefel o gyflawniad mewn asesiad, gall fod yn bosibl derbyn llai o waith heb gosb mewn rhai pynciau. **Fodd bynnag, rhaid bod wedi ymdrin â'r holl amcanion asesu o leiaf unwaith. Ni fydd** yn bosibl gwneud hyn os mai dim ond un darn mae’r fanyleb yn gofyn amdano. Pan fo angen sawl darn o waith, dim ond os yw'r darnau hynny'n profi'r un meini prawf y bydd y gostyngiad yn cael ei dderbyn. **Ni fydd** yn bosibl rhoi'r ystyriaeth hon ym mhob achos, er enghraifft os nad oes unrhyw waith cwrs wedi'i gyflwyno neu os nad yw'r meini prawf asesu wedi'u bodloni.

15.2 **Ni ddylai** canolfannau addasu marciau ymgeiswyr. Dylid cyflwyno cais am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu, ynghlwm wrth grynodeb o'r marciau ar draws yr amcanion asesu. **Rhaid i'r ymgeiswyr fod wedi'u paratoi'n llawn am y cwrs ond nad oeddent wedi gallu gorffen y gwaith**.

**Ni fydd** cyrff dyfarnu fel arfer yn cytuno o flaen llaw i lai o waith cwrs gael ei gyflwyno.

15.3 **Ni fydd** ymgeiswyr yn gymwys am ystyriaeth arbennig os effeithir ar waith paratoi am gydrannau gwaith cwrs neu berfformiad ynddynt oherwydd nad ydynt wedi gallu gwneud y cwrs yn llawn gan eu bod wedi ymuno â'r cwrs ran o'r ffordd drwyddo. Bydd rhaid i ymgeiswyr sy'n newid canolfan arholiadau ran o'r ffordd drwy gwrs naill ai ddal i fyny â’r gwaith a gollwyd neu dderbyn bod bwlch yn eu gwaith cwrs. Gallai hyn gael effaith ar y radd a gyhoeddir.

15.4 Am wybodaeth bellach ar ystyriaeth arbennig dylid cyfeirio at ddogfen y CGC *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig*. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar fformat rhyngweithiol gyda'r Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP). Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu. Mae'r ddogfen hefyd ar gael ar fformat PDF ar wefan y CGC ac yn Gymraeg ar wefan CBAC:
https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance

## 16 Gwaith cwrs coll

16.1 Os yw gwaith ymgeisydd wedi'i golli yn y ganolfan arholiadau, ac, er gwaethaf pob ymdrech, nad oes modd ei ganfod, neu os yw wedi'i ddinistrio'n ddamweiniol, **rhaid** hysbysu'r corff dyfarnu o'r amgylchiadau ar unwaith ar Ffurflen 15 y CGC – JCQ / LCW‡. Mae'r ffurflen hon ar gael ar wefan y CGC: http://www.jcq.org.uk/exams-office/coursework

Darperir canllawiau yn nogfen y CGC *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig.* Mae'r ddogfen hon ar gael ar fformat rhyngweithiol o fewn y Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP). Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu. Mae'r ddogfen hefyd ar gael ar fformat PDF ar wefan y CGC ac yn Gymraeg ar wefan CBAC: https://www.cbac.co.uk/media/eigbi5ro/16-a-guide-to-the-spec-con-process-202021-w.pdf

16.2 Bydd y corff dyfarnu'n ystyried a yw'n briodol derbyn marc nad oes tystiolaeth o gyrhaeddiad ar gael ar ei gyfer. Gallai hyn ddigwydd yn yr amgylchiadau canlynol:

- **Rhaid** i'r ganolfan allu dilysu bod y gwaith wedi'i gwblhau a'i fod wedi cael ei fonitro wrth i'r ymgeisydd weithio arno.
- **Nid** esgeulustod ar ran yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am golli'r gwaith.
- Os collwyd dim ond rhan o'r gwaith a bod rhan o'r gwaith ar gael, rhaid ceisio arweiniad pellach gan y corff dyfarnu perthnasol.
- Os marciwyd y gwaith **cyn** iddo gael ei golli neu ei ddifrodi**, rhaid** cyflwyno'r marciau yn y ffordd arferol. **Rhaid** cyflwyno Ffurflen 15 – JCQ/LCW‡ i'r cymedrolwr ac i'r corff dyfarnu erbyn dyddiad cau cyflwyno marciau a aseswyd yn fewnol neu erbyn dyddiad anfon y gwaith i'w gymedroli. **Ni dderbynnir unrhyw farciau ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi**.
- Os **na farciwyd** y gwaith cyn iddo gael ei golli neu'i ddifrodi, gellir cyflwyno amcangyfrif o'r marc i'r corff dyfarnu ei ystyried ar Ffurflen 15 – JCQ/LCW‡, yn seiliedig ar wybodaeth yr athro o'r gwaith hyd at yr amser y cafodd ei golli. Wrth amcangyfrif **ni ddylid** tybio'r hyn y gallai'r ymgeisydd fod wedi'i gyflawni pe byddai'r gwaith yn orffenedig. **Ni ddylid** cyflwyno amcangyfrifon ar daflenni marciau, dim ond ar Ffurflen 15 – JCQ/LCW‡ y dylid gwneud hynny‡. **Ni ddylid cyflwyno unrhyw farciau wedi'u hamcangyfrif ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi**.

**Ni ddylai** canolfannau AQA ac OCR gyflwyno Ffurflen 15 – JCQ/LCW‡. **Rhaid** cyflwyno ceisiadau ar-lein gan ddefnyddio AQA Centre Services neu OCR Interchange fel y bo'n briodol.

## 17 Ailddefnyddio marciau gwaith cwrs gan ymgeiswyr

17.1 Mewn manylebau unedol, mae canlyniad uned gwaith cwrs, fel canlyniad unrhyw uned arall, ar gael i'w ailddefnyddio ar ôl ardystio **yn amodol ar ddarpariaeth y fanyleb yng nghyfresi arholiadau'r dyfodol**.

17.2 Gall ymgeiswyr sy'n ailsefyll gyflwyno gwaith cwrs sy'n newydd, wedi'i ddiwygio neu wedi'i wella. **Rhaid** i ganolfannau wirio manylebau cyrff dyfarnu ar gyfer canllawiau pwnc-benodol.

Rhaid i ganolfannau fod yn ymwybodol o'r angen i ddilysu gwaith ymgeiswyr, fel y manylir yn adran 7. Rhaid iddynt sicrhau bod unrhyw gymorth ychwanegol yn cael ei gofnodi a'i ystyried wrth farcio'r gwaith (neu ei gyflwyno i'r arholwr allanol) yn y ffordd arferol, fel y manylir yn adran 2. Yn achos gwaith cwrs wedi'i ddiwygio neu ei wella, rhaid i hyn gynnwys cymorth ychwanegol a dderbyniwyd cyn y cyflwyniad blaenorol neu ar ôl derbyn adborth ar y cyflwyniad hwnnw. Fodd bynnag, nid oes angen ystyried gwybodaeth yr ymgeisydd am y dadansoddiad blaenorol o'r marciau yn gymorth ychwanegol.

## 18 Cymedroli allanol

18.1 Pwrpas cymedroli yw dod â marcio cydrannau a asesir yn fewnol yn yr holl ganolfannau cyfranogol at safon y cytunwyd arni. Mae'r cyrff dyfarnu'n gofyn i bob canolfan ildio i gymedroli fel y disgrifir isod.

18.2 Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r ganolfan yn cyflwyno sampl o waith i'r cymedrolwr. Yn achos rhai cydrannau, fodd bynnag, gall y cymedrolwr ymweld â'r ganolfan i farcio'r sampl o waith.

18.3 Efallai y bydd y drefn yn wahanol os yw'r gwaith yn effemeral (h.y. nid oes cynnyrch terfynol parhaol).

18.4 **Rhaid** i bob canolfan gyflwyno'r canlynol i'r corff dyfarnu erbyn y dyddiad a bennir:

- manylion y marciau a ddyfarnwyd;
- cadarnhad bod y gwaith wedi'i safoni'n fewnol yn ôl y gofyn;
- unrhyw ddogfennaeth arall y gallai'r fanyleb neu'r corff dyfarnu ofyn amdani.

18.5 Bydd y corff dyfarnu (neu'r cymedrolwr ar ran y corff dyfarnu) fel arfer yn enwi neu'n rhoi rhifau'r ymgeiswyr y mae angen eu gwaith i'w gymedroli. Dylai'r sampl gynnwys gwaith gan yr ystod gallu gyfan yn y ganolfan.

**Cyfrifoldeb canolfannau yw sicrhau bod y cymedrolwyr yn derbyn y samplau gwaith cywir i'w hadolygu.**

18.6 Yn achos cymedroli drwy ymweliad, bydd ymweliad yn cael ei drefnu ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus i'r ganolfan a'r cymedrolwr.

18.7 Yn ystod y broses gymedroli, mae'r cymedrolwr yn asesu gwaith y sampl drwy ddefnyddio'r meini prawf cyhoeddedig yn y fanyleb.

18.8 Mae marciau'r cymedrolwr yn cael eu cymharu â marciau'r ganolfan ar gyfer y gwaith sampl. Os bydd y gwahaniaethau rhwng marciau'r cymedrolwr a marciau'r ganolfan yn mynd y tu hwnt i'r goddefiant penodedig, bydd marciau'r ganolfan fel arfer yn cael eu newid.

18.9 Os oes angen tystiolaeth bellach o farcio'r ganolfan, efallai y bydd y cymedrolwr yn gofyn am beth o'r gwaith, neu'r holl waith, sy'n weddill. **Rhaid** i'r gwaith hwn fod wedi'i gadw'n ddiogel a dylai fod ar gael.

18.10 Os bydd y cymedrolwr yn anghytuno'n sylweddol â threfn restrol y ganolfan (efallai oherwydd na chafodd trefn safoni fewnol ei gweithredu'n effeithiol) gallai'r corff dyfarnu ofyn i'r ganolfan ailystyried ei marciau. Fel arall, gallai marciau'r cymedrolwr gael eu defnyddio ar gyfer pob ymgeisydd yn y ganolfan ac, mewn rhai amgylchiadau, gallai'r corff dyfarnu godi tâl.

## 19 Adborth i ganolfannau

19.1 Ar ôl cymedroli, caiff y marciau terfynol eu darparu'n electronig i ganolfannau gyda'r canlyniadau. Bydd ffurflenni adborth y cymedrolwr hefyd ar gael i'r canolfannau, naill ai ar ffurf copi caled neu'n electronig, a bydd y rhain yn rhoi cyngor ar y canlynol:

- pa mor briodol oedd y tasgau (lle cawsant eu gosod gan y ganolfan) a'r ymdriniaeth â'r amcanion asesu;
- cywirdeb asesiadau'r ganolfan yn erbyn y meini prawf ac mewn perthynas â'r safon y cytunwyd arni am y gydran/uned;
- effeithlonrwydd gweinyddiaeth y ganolfan;

19.2 Y nod yw rhoi adborth adeiladol, gwrthrychol, wedi'i gefnogi gan ffeithiau neu farn a bydd digon o fanylder i esbonio unrhyw wahaniaethau rhwng asesiadau'r ganolfan a'r safon y cytunwyd arni ar gyfer yr uned/cydran. Dylai hyn alluogi canolfannau i weithredu i adfer hyn lle bo angen cyn cyflwyno'r gwaith a asesir yn fewnol y tro nesaf.

19.3 Gellir gwneud sylwadau ar gywirdeb asesiadau canolfan hyd yn oed os na wneir unrhyw gymhwysiad. Er enghraifft, os yw'r gwahaniaeth rhwng marciau'r cymedrolwr a marciau'r ganolfan prin o fewn y goddefiant penodedig, bydd y cymedrolwr fel arfer yn darparu cyngor ar safon y marcio.

## 20 Gwaith cwrs a asesir yn allanol

20.1 Mewn rhai manylebau, asesir gwaith cwrs yn allanol. Mewn achosion o'r fath, **rhaid** anfon gwaith cwrs pob ymgeisydd, a'r datganiadau dilysu lle y bo'n briodol, at gorff dyfarnu/arholwr i'w farcio erbyn dyddiad penodol.

20.2 Efallai **na fydd** gwaith cwrs a asesir yn allanol yn cael ei ddychwelyd i'r canolfannau'n awtomatig. Yn yr achosion hynny lle nad yw gwaith yn cael ei ddychwelyd i'r canolfannau, bydd yn cael ei drin yn yr un ffordd â sgriptiau arholiad a bydd gofyn i'r canolfannau ofyn am waith o'r fath yn ôl y trefniadau dychwelyd sgriptiau. Dylech gyfeirio at ddogfen y CGC *Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau, Gwybodaeth ac arweiniad i ganolfannau* i gael gwybodaeth fanwl am wasanaethau dychwelyd sgriptiau. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/post-results-services

**Ni fydd** ffurflenni adborth yn cael eu hanfon gydag unrhyw waith cwrs a asesir yn allanol sy'n cael ei ddychwelyd i'r canolfannau.

## 21 Dychwelyd y gwaith i'r canolfannau

21.1 Bydd cymedrolwyr yn dychwelyd gwaith yn uniongyrchol i ganolfannau yn ôl cyfarwyddyd y cyrff dyfarnu. **Ni fydd** asesiadau gwaith cwrs a gyflwynir yn electronig yn cael eu dychwelyd i ganolfannau fel arfer.

21.2 **Mae gofyn i ganolfannau gadw gwaith cwrs ymgeiswyr wedi'i farcio dan amodau diogel, p'un ai oedd yn rhan o'r sampl cymedroli ai peidio tan y bydd pob posibilrwydd o adolygiad o'r cymedroli wedi mynd heibio neu tan y bydd unrhyw apêl, achos o gamymddwyn neu ymholiad am ganlyniad arall wedi'i gwblhau, pa bynnag un sydd hwyraf.** Os yw'n broblem cadw'r gwaith, oherwydd natur y gwaith cwrs, **rhaid** i ryw fath o dystiolaeth fod ar gael (e.e. tystiolaeth ffotograffig, recordiad sain neu recordiad cyfryngau). Gofynnir i ganolfannau hefyd gadw cofnod o rifau arholiad ac enwau'r ymgeiswyr hynny y cynhwysir eu gwaith yn y sampl a anfonir at neu a welir gan gymedrolwyr. Gall fod angen y wybodaeth hon os oes adolygiad o gymedroli yn ddiweddarach. Yn achos gwaith cwrs sy'n cael ei storio'n electronig yn y ganolfan, dylid hefyd ystyried ei warchod rhag cael ei lygru.

21.3 Bydd corff dyfarnu yn cadw gwaith enghreifftiol at ddibenion archifo a safoni. Gweler paragraffau 6.12 i 6.19 o ddogfen y CGC *Cyfarwyddiadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy* am wybodaeth am hawlfraint*.* Mae'r ddogfen hon ar gael ar fformat rhyngweithiol o fewn y Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP). Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu. Mae'r ddogfen hefyd ar gael ar fformat PDF ar wefan y CGC ac yn Gymraeg ar wefan CBAC: http://www.jcq.org.uk/exams-office/general-regulations

## 22 Trefniadau consortiwm canolfannau

22.1 Mewn achosion lle mae ymgeiswyr o wahanol ganolfannau wedi'u haddysgu ac yn cael eu hasesu gyda'i gilydd, **rhaid** i'r canolfannau hysbysu'r cyrff dyfarnu o'r unedau/cydrannau perthnasol a asesir yn fewnol a pha ganolfannau sy'n cymryd rhan. Cyfeirir at ganolfannau sy'n dilyn trefniant o'r fath fel consortiwm.

22.2 **Rhaid** i'r canolfannau yn y consortiwm enwebu cydlynydd consortiwm sy'n ymgymryd â'r dasg o gysylltu â'r cyrff dyfarnu ar ran y canolfannau i gyd.

22.3 **Rhaid** i gydlynwyr consortiwm lenwi'r Ffurflen JCQ/CCA *Trefniadau consortiwm canolfannau ar gyfer gwaith a asesir yn y ganolfan,* sydd ar gael drwy'r Porth Gweinyddu Canolfannau, i bob cyfres arholiadau a phob manyleb gydag un neu fwy o gydrannau/unedau a asesir yn fewnol sydd wedi'u haddysgu ar y cyd.

**Rhaid** i gydlynwyr gyflwyno'r ffurflen erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd.

22.4 **Rhaid** i'r canolfannau safoni marcio'r gwaith cwrs yn fewnol ar draws y consortiwm.

22.5 Bydd y corff dyfarnu'n dyrannu'r un cymedrolwr i bob canolfan mewn consortiwm a bydd yr ymgeiswyr yn cael eu trin fel un grŵp at ddibenion cymedroli.

22.6 Os bydd consortiwm yn gwneud cais am adolygiad o'r cymedroli, **rhaid** i'r gwaith fod ar gael gan y canolfannau **i gyd**, gan mai'r sampl gwreiddiol sy'n cael ei adolygu.

## 23 Adolygiadau o'r cymedroli

23.1 Gall canolfannau ofyn am adolygiad o'r cymedroli (Gwasanaeth 3) er mwyn sicrhau bod y meini prawf asesu wedi'u cymhwyso'n deg, yn ddibynadwy ac yn gyson. **Nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael os yw marciau gwaith cwrs y ganolfan wedi'u derbyn heb eu newid gan gorff dyfarnu**.

23.2 Mae’r adolygiad o’r cymedroli:

- yn broses lle mae ail gymedrolwr safoni yn adolygu gwaith y cymedrolwr safoni cyntaf. Bydd yr ail gymedrolwr yn gweld y marciau gwreiddiol ac unrhyw anodiadau a wnaed gan y cymedrolwr cyntaf er mwyn cael dealltwriaeth lawn a chlir a gymhwyswyd y meini prawf asesu yn ôl y bwriad;
- yn broses i sicrhau bod y cymedrolwr cyntaf wedi dod i'r farn gywir ynglŷn â gallu canolfan i farcio'r gwaith i'r safon cenedlaethol y cytunwyd arno;
- yn adolygu’r marcio ar y sampl gwreiddiol o waith ymgeiswyr;
- yn cynnwys adborth tebyg i'r hyn a ddarparwyd ar ôl y safoni gwreiddiol. (Os adferir marciau'r ganolfan, ni fydd adborth yn cael ei roi.)

**Rhaid i'r cymedrolwr sy'n cynnal adolygiad o'r cymedroli ystyried y marciau a roddwyd gan y cymedrolwr blaenorol, a dim ond os oes gwall wedi codi yn y broses gymedroli gychwynnol y gellir newid canlyniad y cymedroli.**

23.3 **Ni fydd** cymedroli gwaith ymgeisydd unigol na gwaith ymgeiswyr nad oeddent yn y sampl gwreiddiol yn cael ei adolygu (oni bai bod gwall wrth ddethol y sampl gwreiddiol, e.e. heb gynnwys digon o ymgeiswyr).

23.4 **Rhaid** i'r gwaith cwrs a gyflwynir am adolygiad o’r cymedroli:

- gael ei ddanfon at y cymedrolwr o fewn tri diwrnod gwaith ar ôl derbyn cyfarwyddiadau gan y corff dyfarnu. Gall methiant i wneud hyn ohirio canlyniad yr adolygiad o'r cymedroli, neu arwain at ganslo’r adolygiad o'r cymedroli;
- bod yn waith gwreiddiol a gyflwynwyd i'w gymedroli;
- bod wedi’i gadw dan amodau diogel;
- heb ei ddychwelyd i’r ymgeiswyr.

23.5 Mae'n bosibl y bydd y corff dyfarnu'n gofyn am sampl cyfatebol lle collwyd y sampl gwreiddiol o waith ymgeiswyr.

23.6 Ymdrinnir â gwaith cwrs a asesir yn allanol fel sgriptiau arholiad at ddibenion ymholiadau am ganlyniadau. Dylai canolfannau wneud cais am adolygiad o'r marcio (Gwasanaeth 2) neu adolygiad blaenoriaethol o’r marcio (Gwasanaeth Blaenoriaeth 2) fel sy'n briodol i lefel y cymhwyster.

23.7 Dylech gyfeirio at ddogfen y CGC *Gwasanaethau Ar ôl y Canlyniadau, Gwybodaeth ac arweiniad i ganolfannau* (Post Result Services, Information and guidance for centres) i gael gwybodaeth bellach am adolygiadau o’r marcio ac adolygiadau o’r cymedroli. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC: http://www.jcq.org.uk/exams-office/post-results-services

## 24 Materion yn ymwneud â mynediad

24.1 Wrth ddewis manylebau, **rhaid** i'r ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r sgiliau y bydd gofyn iddynt eu dangos mewn cydrannau/unedau gwaith cwrs mewn pwnc. Os ydynt yn dewis manyleb lle **na fyddant** yn gallu dangos cyrhaeddiad ym mhob rhan o'r asesiad, ni fyddant yn gallu ennill yr holl gredyd sydd ar gael.

24.2 Mae'n bosibl i gyrff dyfarnu gytuno ar drefniadau fel y gall ymgeiswyr â gofynion arbennig gyrchu'r asesiad(au). **Rhaid gwneud y trefniadau hyn cyn yr arholiadau ac asesiadau**. Dylai canolfannau gyfeirio at ddogfen y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar fformat rhyngweithiol o fewn y Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP). Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu. Mae'r ddogfen hefyd ar gael ar fformat PDF ar wefan y CGC ac yn Gymraeg ar wefan CBAC:
https://www.cbac.co.uk/media/q2ynddwo/4-aa-regs-2020-2021-w.pdf

24.3 **Rhaid** i ganolfannau sicrhau, lle mae gwaith cwrs wedi'i farcio gan athrawon, bod credyd ond yn cael ei roi am sgiliau wedi'u dangos gan yr ymgeisydd yn gweithio'n annibynnol. **Ni ddylai** trefniadau mynediad danseilio dilysrwydd y cymhwyster.

## Datganiad dilysu – asesiadau gwaith cwrs

**Rhaid** i bob ymgeisydd lofnodi datganiad wrth roi ei waith cwrs i'r athro i'w asesu'n derfynol. Mae hyn er mwyn cadarnhau mai ei waith ei hun ydyw a bod unrhyw gymorth a gafwyd a/neu ffynonellau a ddefnyddiwyd wedi'u cydnabod. **Cyfrifoldeb canolfannau yw sicrhau eu bod yn gwneud hynny.**

(Caiff ymgeisydd ei ddiffinio fel unigolyn y cyflwynwyd cofrestriad ar ei ran ar gyfer uned neu gymhwyster.)

Gall cyrff dyfarnu gyhoeddi ffurflenni Datganiad Dilysu i'r canolfannau, fydd yn dyblygu rhywfaint neu'r cyfan o'r geiriad isod. Neu fel arall, gall y canolfannau hynny sydd am greu eu dogfennaeth eu hunain ddefnyddio'r canlynol fel arweiniad.

**Rhaid** i'r gwaith rydych chi'n ei gyflwyno i'w asesu fod wedi ei wneud gennych chi.

**Os byddwch wedi copïo gwaith rhywun arall, wedi caniatáu i ymgeisydd arall gopïo oddi wrthych chi, neu byddwch wedi twyllo mewn unrhyw ffordd arall, mae'n bosibl y cewch o leiaf eich diarddel o'r pwnc o dan sylw.**

## Datganiad gan yr ymgeisydd

Rwyf wedi darllen a deall Gwybodaeth i ymgeiswyr – asesiadau gwaith cwrs. Rwyf wedi cynhyrchu'r gwaith a atodir heb unrhyw gymorth ac eithrio'r hyn mae fy athro wedi esbonio sy'n dderbyniol o dan y cynllun asesu.

(Yn achos cymwysterau TLM, os oes angen gwneud hynny, gall yr athro gwblhau'r rhan hon ar ran yr ymgeisydd. **Rhaid** esbonio'r testun i'r ymgeisydd cyn i'r athro lofnodi'r ffurflen.)

**Enw'r ymgeisydd:........................................................................**

**Llofnod yr ymgeisydd:*........................................Dyddiad:....................**

## Datganiad gan yr athro

Rwyf yn cadarnhau:

1. bod gwaith yr ymgeisydd wedi'i gynhyrchu dan yr amodau a roddir yn y fanyleb;

2. Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwyf yn fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y gwaith wedi ei gyflawni gan yr ymgeisydd yn unig.

**Enw'r athro:........................................................................**

**Llofnod yr athro:*........................................Dyddiad:......................**

*Mae'n dderbyniol llofnodi'r dogfennau'n electronig. Bydd enwau sydd wedi'u teipio yn cael eu hystyried yn rhai sy'n rhwymol fel llofnod wedi'i ysgrifennu â llaw.

©JCQ$^{CIC}$ 2023

**Cynhyrchwyd yr hysbysiad hwn ar ran:**

**AQA, CBAC, City & Guilds, CCEA, OCR a Pearson**

## Gwybodaeth i ymgeiswyr – asesiadau gwaith cwrs yn weithredol o 1 Medi 2023

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych am rai pethau y **dylech**, ac **na ddylech**, eu gwneud wrth gwblhau gwaith cwrs.

Cyn i chi gyflwyno unrhyw waith cwrs i'w farcio, gofynnir i chi lofnodi datganiad dilysu'n cadarnhau eich bod wedi darllen a dilyn y rheoliadau hyn.

Os nad ydych yn deall rhywbeth, **rhaid** i chi ofyn i'ch athro.

Mewn rhai pynciau, bydd cyfle i chi wneud rhywfaint o waith ymchwil annibynnol i destun. Gallai'r gwaith ymchwil yr ydych chi'n ei wneud gynnwys chwilio am wybodaeth mewn ffynonellau cyhoeddedig fel gwerslyfrau, gwyddoniaduron, cyfnodolion, teledu, radio ac ar y rhyngrwyd.

Gallwch ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o bwnc trwy ddefnyddio gwybodaeth o ffynonellau neu wybodaeth sydd wedi'i chynhyrchu o ffynonellau a allai gynnwys y rhyngrwyd a DA. Ond **rhaid** i chi ofalu sut rydych yn defnyddio'r deunydd hwn – **ni chewch** chi ei gopïo a'i ddatgan fel eich gwaith eich hun.

| |
|---|
| Mae'r rheoliadau'n nodi:<br>'**rhaid** mai eich gwaith chi yn unig yw'r gwaith a gyflwynwch i'w asesu;'<br>'**rhaid i chi beidio** â chopïo oddi wrth rywun arall na chaniatáu i ymgeisydd arall gopïo oddi wrthych chi'. |

Os byddwch yn defnyddio'r un geiriad â ffynhonnell gyhoeddedig, **rhaid** i chi roi dyfynodau o gwmpas y darn a nodi o ble y daeth. Gelwir hyn yn 'cyfeirio'. Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod chi'n rhoi cyfeiriadau manwl i bopeth yn eich gwaith heblaw am eich geiriau eich hun. Dylai cyfeiriad o lyfr neu gyfnodolyn sydd wedi ei argraffu ddangos enw'r awdur, y flwyddyn gyhoeddi a rhif y dudalen, er enghraifft: (Morrison, 2000, tud. 29).

Yn achos deunydd o'r rhyngrwyd, dylai eich cyfeiriad ddangos y dyddiad y llwythwyd y deunydd i lawr a **rhaid** dangos yr union dudalen we, nid y peiriant chwilio a ddefnyddiwyd i ddod o hyd iddo. Gellir copïo hwn o'r llinell cyfeiriad. Er enghraifft:
http://news.bbc.co.uk/onthisday/hi/dates/stories/october/28/newsid_2621000/2621915.stm
llwythwyd i lawr 5 Chwefror 2024.

Lle defnyddiwyd cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur (megis Bot Sgwrsio DA), **rhaid** i'ch cyfeirnod ddangos enw'r bot DA a ddefnyddiwyd a hefyd dyddiad cynhyrchu'r cynnwys. Er enghraifft: ChatGPT 3.5 (https://openai.com/blog/chatgpt/), 25/01/2024. Dylech gadw copi o'r cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur at ddibenion cyfeirio a dilysu.

Efallai y bydd gofyn i chi gynnwys llyfryddiaeth ar ddiwedd eich gwaith. **Rhaid** i chi restru manylion llawn y cyhoeddiadau rydych wedi'u defnyddio ar gyfer eich gwaith ymchwil, hyd yn oed os nad ydych yn cyfeirio yn uniongyrchol at y rhain, er enghraifft: Curran, J. *Mass Media and Society* (Hodder Arnold, 2005).

**Os byddwch yn copïo geiriau, syniadau neu allbwn pobl eraill ac nad ydych yn dangos eich ffynonellau mewn cyfeiriadau a llyfryddiaeth, bydd hyn yn cael ei ystyried yn dwyllo.**

## Paratoi eich gwaith cwrs – arfer da

Os byddwch yn derbyn cymorth ac arweiniad gan unrhyw un heblaw eich athro, **rhaid** i chi ddweud wrth eich athro a bydd yntau wedyn yn cofnodi natur y cymorth a roddwyd i chi.

Gall eich rhiant/gofalwr roi mynediad i chi at adnoddau a thrafod eich gwaith cwrs gyda chi. Fodd bynnag, **ni ddylent** roi cyngor uniongyrchol i chi am yr hyn y dylid, neu na ddylid, ei gynnwys.

Os buoch chi'n gweithio fel rhan o grŵp ar aseiniad, **rhaid** i bob un ohonoch chi ysgrifennu eich cyfrif eich hun o'r aseiniad. Hyd yn oed os yw'r data sydd gennych yr un fath, dylai'r disgrifiad o sut cafwyd y data hynny, a'r casgliadau rydych chi'n dod iddynt ar sail y data, fod yn eich geiriau eich hun.

**Rhaid** i chi fodloni'r terfynau amser a gewch chi gan eich athro. Cofiwch – mae eich athrawon yno i'ch arwain chi. Er na allan nhw roi cymorth uniongyrchol i chi, gallan nhw eich helpu i ddatrys unrhyw broblemau cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Cymerwch ofal o'ch gwaith a'i gadw'n ddiogel. Peidiwch â'i adael o gwmpas lle gall eich cyd-ddisgyblion ddod o hyd iddo neu ei rannu ag unrhyw un, gan gynnwys ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. **Rhaid** i chi bob amser gadw eich gwaith cwrs yn ddiogel ac yn gyfrinachol wrth i chi ei baratoi; **peidiwch** â'i rannu â'ch cyd-ddisgyblion. Os byddwch yn ei gadw ar rwydwaith cyfrifiadur, cadwch eich cyfrinair yn ddiogel. Casglwch yr holl gopïau o'r peiriant argraffu a dinistriwch y rheini nad oes eu hangen arnoch.

**Peidiwch â chael eich temtio i ddefnyddio unrhyw atebion ar-lein wedi'u paratoi neu eu cynhyrchu ymlaen llaw a honni mai eich gwaith chi ydyw - twyllo yw hyn.** Gall offer electronig sy'n cael eu defnyddio gan gyrff dyfarnu ganfod y math hwn o gopïo.

**Ni ddylech** ysgrifennu deunydd amhriodol, anweddus na sarhaus.

## Llên-ladrad

Llên-ladrad yw cymryd geiriau, barn, syniadau neu allbwn rhywun arall a honni mai eich gwaith chi ydyw. **Mae'n ffurf o dwyllo ac mae'n cael ei ystyried yn ddifrifol iawn**.

Peidiwch â meddwl na chewch chi eich dal; mae sawl ffordd o ganfod llên-ladrad.

- Gall marcwyr sylwi ar newidiadau yn arddull yr ysgrifennu a'r defnydd o iaith.
- Mae marcwyr yn arbenigwyr pwnc hynod brofiadol sy'n gyfarwydd iawn â gwaith ar y testun dan sylw — efallai y byddant wedi darllen y ffynhonnell rydych yn ei defnyddio, neu hyd yn oed wedi marcio'r gwaith rydych wedi copïo ohono!
- Gellir defnyddio peiriannau chwilio'r rhyngrwyd a meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol i gysylltu ymadroddion neu ddarnau o destun â ffynonellau gwreiddiol ac i ganfod newidiadau mewn gramadeg ac yn arddull yr ysgrifennu neu'r atalnodi.

## Cosbau am dorri'r rheoliadau

Os cyflwynir eich gwaith a gwelir eich bod chi wedi torri'r rheoliadau, rhoddir un o'r cosbau canlynol ar waith:

- bydd y darn o waith yn cael marc sero;
- byddwch chi'n cael eich diarddel o'r uned honno ar gyfer y gyfres arholiadau honno;
- byddwch chi'n cael eich diarddel o'r pwnc cyfan ar gyfer y gyfres arholiadau dan sylw;
- byddwch chi'n cael eich diarddel o bob pwnc ac yn cael eich rhwystro rhag ailgofrestru am gyfnod o amser.

Bydd y corff dyfarnu'n penderfynu pa gosb sy'n briodol.

## COFIWCH – EICH CYMHWYSTER CHI YDYW FELLY RHAID MAI EICH GWAITH CHI YDYW